**Adroddiad Taith Ryngwladol: Fforwm Democratiaeth Athen 2025**

Rhwng 30 Medi a 3 Hydref 2025, fe es i Fforwm Democratiaeth Athen yng Ngwlad Groeg. Roedd teitl y Fforwm eleni, *New Visions for Hard Realities*, yn un addas. Nid cynhadledd ar gyfer hunan-foli democratiaeth oedd hon. Roedd yn gynhadledd ynghylch democratiaeth o dan straen: dan straen gan ddiffyg ymddiriedaeth y cyhoedd, gan anhrefn geo-wleidyddol, gan gamwybodaeth, gan gynnydd mewn arferion awdurdodyddol, ac eleni, yn anad dim, gan rym aflonyddgar deallusrwydd artiffisial.

Rhoddodd hynny ddifrifoldeb i'r Fforwm sydd ar goll mewn llawer o gynadleddau rhyngwladol. Roedd y trefnwyr — y Democracy & Culture Foundation, ar y cyd â'r *New York Times* — wedi cynnull rhestr drawiadol o enwau ynghyd a rhaglen a oedd â chydgysylltedd deallusol. Nid oedd seneddwyr, gweinidogion, meiri, academyddion, newyddiadurwyr ac arweinwyr dinesig yno i dalu teyrnged i ddemocratiaeth fel haniaeth. Roedden nhw yno i ofyn cwestiwn mwy bachog: sut gall sefydliadau democrataidd barhau i fod yn gredadwy, yn ymatebol ac yn ddynol mewn byd sy'n tyfu'n gyflymach, yn fwy didrugaredd ac yn anoddach i'w lywodraethu?

Deallusrwydd Artiffisial - AI - oedd wrth wraidd pethau eleni. Roedd hwn yn ddewis doeth. Mae deallusrwydd artiffisial bellach wrth gyffordd rhai o bryderon diffiniol bywyd democrataidd modern: gwirionedd ac anwiredd, cyflymder a chraffu, cyfleustra a rheolaeth, arloesedd ac atebolrwydd. Fe aeth y sesiynau agoriadol am **AI, Moeseg a Democratiaeth** yn syth i'r afael â'r tensiynau hynny. Fe wnaeth Dimitris Papastergiou, Gweinidog Llywodraethu Digidol Gwlad Groeg, ddarlunio'r mater yn glir pan ddywedodd fod yn rhaid i dechnoleg aros fel "gwas, nid fel meistr". Gosododd Achilleas Tsaltas, Llywydd y Democracy & Culture Foundation, AI yn y cyd-destun democrataidd ehangach: nid yw'n gwestiwn o beth y gall y systemau hyn eu gwneud, ond pa fath o drefn wleidyddol maen nhw'n ei gryfhau.

Roedd y sgwrs agoriadol honno, oedd yn cynnwys Stathis Kalyvas o Rydychen a Hélène Landemore o Yale, yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei bod yn ymwrthod â'r delfrydu hawdd a'r codi bwganod defodol sydd mor aml yn effeithio ar drafodaethau am dechnoleg. Nid y cwestiwn oedd a yw AI yn "dda" neu'n "ddrwg". Y cwestiwn oedd a yw sefydliadau democrataidd yn gallu ei lunio cyn iddynt gael eu goddiweddyd ganddo. Roedd y thema honno yn gyson trwy lawer o'r wythnos.

Fe'i datblygwyd ymhellach yn y sesiwn **Harnessing AI to Strengthen Democracy in the Age of Geopolitical Upheaval** gan Brando Benifei o Senedd Ewrop, Despina Spanou o'r Comisiwn Ewropeaidd a Martyna Bildziukiewicz o'r European External Action Service, lle trafodwyd AI nid fel haniaethiad dyfodolaidd ond fel cyflymydd o'r risgiau democrataidd presennol. Un pwynt a wnaed yn angerddol oedd nad oes modd gwahanu diogelwch ac AI erbyn hyn. Nid yw camwybodaeth, seiber-wendid ac ystumio

gwybodaeth dramor yn bryderon ar y cyrion mwyach. Maen nhw'n rhan o'r un broblem. Gellir defnyddio'r un technolegau a all helpu sefydliadau i ddod yn fwy gwydn hefyd i hollti cymdeithasau, ystumio etholiadau ac erydu ymddiriedaeth yn gyflym ac ar raddfa fawr.

Nid y diagnosis yn unig oedd yn bwysig yma, ond y tôn. Nid efengylwyr a'u bryd ar aflonyddu oedd y cyfranwyr na chwaith reoleiddwyr technoffobig. Roedd y cyfraniadau gorau yn cydnabod bod democratiaethau'n wynebu dwy ddyletswydd: rhaid iddynt amddiffyn eu hunain rhag defnydd maleisus o AI tra hefyd yn dysgu sut i'w ddefnyddio'n ddeallus ac yn gyfreithlon mewn bywyd cyhoeddus. Fel arall, maen nhw'n peryglu'r gwaethaf o'r ddau fyd: bregusrwydd heb ddeheurwydd.

Ochr yn ochr â'r brif raglen, cymerais ran mewn sesiwn wahoddiad yn unig ar gyfer deddfwyr, dan y teitl **Parliamentary Caucus on AI, Trust and Leadership.** Roedd hwn yn un o'r rhannau mwyaf gwerthfawr o'r ymweliad, yn benodol am ei fod yn symud o esbonio i roi pethau ar waith. Gofynnodd nid yn unig beth ddylai seneddwyr feddwl am AI ond sut y dylent weithio gydag ef, ble y dylent osod ffiniau, a pha fath o offer allai gryfhau sefydliadau democrataidd yn hytrach na'u gwanhau.

Roedd un sesiwn yn arbennig yn sefyll allan: gweithdy cydweithredol lle gofynnwyd i gyfranogwyr ddylunio offeryn AI ar gyfer seneddwyr. Nid gimic oedd y sesiwn. Roedd yn ymarfer disgybledig mewn dychmygu sefyllfa ar gyfer sefydliadau. Gofynnwyd i ni feddwl beth ddylai offeryn o'r fath ei wneud mewn gwirionedd, ar gyfer pwy mae o, sut fath o bersonoliaeth ddylai fod, pa fath o gwestiynau y dylai eu hateb, a pha fath o gwestiynau na ddylai byth eu hateb. Mewn geiriau eraill, nid oedd y drafodaeth yn ymwneud ag AI o ran haniaeth. Roedd yn ymwneud â'i ddefnydd, ei ffiniau, moeseg ac ymddiriedaeth.

Roedd yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn ddadlennol. Nid cysyniad o wleidydd synthetig neu oracl hollwybodol oedd yr un mwyaf perswadiol, ond cysyniad o gynorthwyydd rhithwir sobor: offeryn a allai helpu gyda chymharu deddfwriaeth, cyfosod tystiolaeth, mapio polisïau a fframio opsiynau ar draws awdurdodaethau. Fe wnes i ddisgrifio'r ddelfryd fel rhyw fath o siop bolisi byd-eang all fyw yn eich poced. Roedd hyn i bob golwg yn cyseinio gydag eraill yn y drafodaeth. Nid y nod yw disodli barn, perswâd neu wleidyddiaeth. Ei nod yw lleihau llafur diflas, ehangu ymchwil gymharol, a gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig a fydd bob amser o dan bwysau amser enbyd.

Roedd y gweithdy hwnnw'n arbennig o werthfawr oherwydd iddo lywio fy nghyfraniad diweddarach yn fforwm Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar AI. Fe helpodd i grisialu barn roeddwn i eisoes wedi bod yn symud tuag ati: na ddylai seneddau ddod yn gwsmeriaid ar gyfer offer cyffredinol a adeiladwyd yn rhywle arall ac ar dybiaethau eraill. Dylent gydweithio i ddatblygu offer. Adlewyrchwyd hynny yn yr argymhelliad a wnaeth

ein dirprwyaeth yn fforwm Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad: y dylai deddfwrfeydd weithio ar y cyd, yn hytrach nag ar wahân, i lunio offer AI seneddol dibynadwy sydd wedi'u gwreiddio mewn anghenion democrataidd a gwerthoedd cyhoeddus.

Wynebodd y cawcws wirionedd caled arall hefyd. Nid dim ond newid llywodraethu y mae AI yn ei wneud. Mae'n newid y gynrychiolaeth. Dadleuodd un siaradwr fod seneddwyr bellach yn delio â “math newydd o etholwr”, nid oherwydd bod dinasyddion eu hunain yn sylfaenol wahanol, ond oherwydd bod y tirlun gwybodaeth o’u cwmpas yn wahanol. Mae mwy o gyfathrebu gwleidyddol yn cael ei hidlo trwy systemau algorithmig. Mae mwy o bobl yn dod ar draws crynodebau yn hytrach na ffynonellau, barn yn hytrach na dadl, argyhoeddiad yn hytrach na thystiolaeth. Mae hynny'n gwneud gwaith craffu seneddol yn fwy yn hytrach na’n llai heriol. Mae hefyd yn golygu na ellir gadael cwestiynau ynghylch rhagfarn, data hyfforddi, tryloywder ac archwiliadwyedd i arbenigwyr technegol yn unig fwyach. Maen nhw'n gwestiynau democrataidd pwysig.

Yn lwcus, ni adawodd y Fforwm ehangach i AI fwrw’i gysgod dros bopeth arall. Roedd yn dychwelyd yn gyson at bwynt dyfnach: mae'r technolegau hyn yn cyrraedd cymdeithasau sydd eisoes yn flinedig, wedi'u polareiddio ac yn amheus. Yn y cyfarfod llawn agoriadol, **Rethinking the World Order**, fe wnaeth Bjørn Berge o Gyngor Ewrop, Martin Hojsík o Senedd Ewrop, Hélène Landemore a Danilo Türk drafod a yw'r drefn ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau yn cael ei datgymalu'n weithredol neu a yw'n cael ei gadael i ddadfeilio. Ond roedd gwir arwyddocâd y sesiwn yn yr hyn yr oedd yn ei olygu ar gyfer gwleidyddiaeth ddomestig. Nid dim ond pan gânt eu dymchwel y mae democratiaethau'n methu. Maent hefyd yn methu pan fydd dinasyddion yn rhoi'r gorau'n araf i gredu y gall sefydliadau wrando, wneud penderfyniadau neu gyflawni.

Daeth yr un syniad i’r amlwg yn fwy uniongyrchol yn **Rethinking Populism: Tapping Into Discontent**, gydag Ivan Krastev, Neha Sahgal a Stefanos Kasselakis ar y panel. Roedd hon yn un o'r sesiynau cryfaf oherwydd ei bod yn ymwrthod â thrin poblyddiaeth fel problem gyfathrebu neu broblem gyda’r etholwyr. Yn hytrach, cafodd ei thrin fel symptom o ymddieithrio: ymddieithrio oddi wrth sefydliadau, oddi wrth arbenigedd, oddi wrth systemau sy'n dal i siarad iaith democratiaeth ond yn aml nad ydynt mwyach yn cyfleu pwrpas, tegwch na rheolaeth. Roedd hynny'n ymddangos yn hollol wir i mi. Nid yw democratiaethau yn dadlau yn erbyn poblyddiaeth trwy annog pleidleiswyr i dawelu. Maent yn gwneud hynny drwy ddod yn fwy dealladwy, yn fwy ymatebol ac yn fwy effeithiol.

Cryfder arall y rhaglen oedd ei phryder ymarferol ynghylch adnewyddu sefydliadau democrataidd. Daeth **arddangosfa ar effaith cyrff anllywodraethol ar addysg ddinesig, ecosystemau gwybodaeth a phrosesau democrataidd ymgynghorol** ag enghreifftiau o waith democrataidd o du hwnt i'r cylch arferol o gynrychiolwr sefydliadol. Cafwyd sesiynau hefyd ar ysgogi dinesig, ymgysylltu democrataidd ar-lein ac adrodd straeon fel cyfrwng ar gyfer newid. Roedd y pwyslais hwnnw'n bwysig.

Awgrymodd na fydd democratiaeth yn cael ei hadnewyddu gan sefydliadau sy'n siarad â'u hunain yn unig. Os caiff ei hadnewyddu o gwbl, bydd hynny'n digwydd trwy ailadeiladu'r arferion a'r sianeli y mae dinasyddion yn teimlo bod gwleidyddiaeth yn perthyn iddynt.

Nid yw hynny'n bwynt dibwys i'r Senedd. Wrth i'n sefydliad esblygu, bydd pwnc dyfnder democrataidd yn dod yn bwysicach, nid yn llai pwysig. Gall senedd fod yn gadarn o ran ei gweithdrefnau a dal i deimlo'n bell i ffwrdd. Gall fod yn atebol yn ffurfiol a dal i ymddangos yn anhygyrch. Roedd y trafodaethau yn Athen yn atgof defnyddiol nad yw cyfranogiad, dealladwyedd ac ymddiriedaeth yn ychwanegiadau addurniadol. Maent yn rhan o system i weithredu democratiaeth iach.

Roedd y sesiynau ar AI yn y byd gwaith hefyd yn fwy sylweddol nag y mae llawer o drafodaethau o'r fath yn tueddu i fod. Yn y sesiwn **The AI Factory as a Business Model**, trafododd siaradwyr fel Christoforos Anagnostopoulos a Michalis Kassimiotis ymgais Ewrop i adeiladu capasiti technolegol heb gopïo model graddfa-yn-gyntaf yr Unol Daleithiau na'r dull sy'n canolbwyntio'n drwm ar ddilyn gorchmynion sy'n gysylltiedig â Tsieina. Y pwynt mwyaf defnyddiol a wnaed oedd nad seilwaith na phŵer cyfrifiadurol yn unig yw'r her. Mae'n ymwneud â mabwysiadu, ymddiriedaeth a gallu ymarferol. Un peth yw adeiladu systemau. Peth arall yw cael sefydliadau, cwmnïau a gweithwyr i'w defnyddio yn ddoeth.

Parhaodd y drafodaeth honno yn **Dangers and Opportunities: Sandboxes and Safe Harbors**, a wnaeth fwrw golwg ar ddyfodol gwaith ac ystyr cymdeithasol AI. Roedd hon yn un o sesiynau gorau'r wythnos oherwydd ei fod yn symud heibio'r hen bwnc o AI yn "cymryd swyddi" ac at drafodaeth fwy difrifol ynghylch pa fath o waith y dylai cymdeithasau democrataidd fod eisiau ei gadw. Pwysleisiodd sawl siaradwr nad effeithlonrwydd yn unig yw'r prif fater. Mae'n fater o urddas, galluogedd ac annibyniaeth. Nid yw bodau dynol yn gyfnewidiol â systemau AI, ac ni ddylai polisi cyhoeddus eu trin fel hynny. Un ddadl angerddol iawn oedd mai ychwanegu at gynnydd dynol ddylai fod y nod, nid atgynhyrchu ei alluoedd na'u disodli. Dadl arall oedd bod angen nid yn unig mwy o gynhyrchiant arnom, ond mwy o oruchwyliaeth ddynol a chynhwysol, yn enwedig lle mae systemau digidol yn dechrau llunio eu hamodau gwaith eu hunain.

Dyna oedd un o rinweddau cyson y Fforwm. Ar ei orau, roedd yn trin democratiaeth nid yn unig fel trefniant cyfansoddiadol ond fel ecoleg foesol a dinesig. Nid pwy sy'n pleidleisio a phwy sy'n llywodraethu yw'r unig beth pwysig, ond pa fath o wybodaeth sy'n cylchredeg, pa fath o waith sy'n cael ei wobrwyo, pa fath o urddas sy'n cael ei warchod a pha fath o wirionedd sy'n goroesi cyswllt â phŵer gwleidyddol.

Roedd y Fforwm hefyd yn dangos difrifoldeb moesol pwysig. Yn ei **Hanerchiad Aristotle,** dychwelodd Maria Ressa at themâu a adleisiodd drwy gydol yr wythnos: erydiad yn yr hyn sy'n wirionedd, y peryglon mewn crynhoi'r pŵer mewn ychydig o

blatfformau, a'r gost a delir gan y rhai sy'n parhau i fynnu gonestrwydd cyhoeddus mewn oes sy'n aml yn gwobrwyo ystumio’r gwir. Roedd cyflwyno **Gwobr Democratiaeth Dinas Athen** i Gideon Levy â grym tebyg. Roedd y pwynt sylfaenol yn ddigon amlwg: mae democratiaeth yn dibynnu nid yn unig ar sefydliadau, ond ar barodrwydd newyddiadurwyr, dinasyddion a ffigyrau cyhoeddus i siarad yn glir pan fydd sefydliadau eu hunain dan bwysau i edrych i gyfeiriad arall.

Felly beth wnes i ddod yn ôl ag ef o Athen?

Yn gyntaf, ymdeimlad cryfach bod angen i ddeddfwrfeydd ddod yn fwy llythrennog yn dechnolegol heb ddod yn dechnocrataidd. Nid dynwared Silicon Valley yw'r bwriad. Yn hytrach, mae’n rhaid parhau i allu craffu ar bŵer, gosod safonau a diogelu cyfrifoldeb dynol.

Yn ail, argyhoeddiad cliriach nad yw cydweithio seneddol ar offer deallusrwydd artiffisial yn ddewisol. Nid yw’n gwestiwn bellach a fydd offer o'r fath yn bodoli. Y cwestiwn yw a fydd gan sefydliadau democrataidd unrhyw rôl ddifrifol wrth eu llunio.

Yn drydydd, cefais f’atgoffa bod ymddiriedaeth yn fwy ymarferol na chyflwyniadol. Ni fydd dinasyddion yn ymddiried mewn sefydliadau oherwydd bod y sefydliadau hynny'n darganfod geirfa fwynach. Byddant yn ymddiried ynddynt os ydynt yn ymddangos yn deg, yn gymwys, ac yn onest.

Yn bedwerydd, gwerthfawrogiad o’r newydd fod yn rhaid i arloesedd mewn democratiaeth fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Nid addurn hardd yw trafodaeth well, cywirdeb gwybodaeth gryfach, addysg ddinesig ehangach a dylunio technolegol mwy meddylgar. Mae’n rhan o'r beirianwaith y mae democratiaeth yn ei ddefnyddio i adnewyddu, a hebddi, bydd democratiaeth yn adfeilio.

Mae digon o symbolaeth yn Athen wrth gwrs ar gyfer unrhyw gynhadledd ar ddemocratiaeth. Ond nid cefnlen y ddinas oedd yn cynnig gwerth i’r ymweliad hwn. Roedd y gwerth yn nifrifoldeb y sgyrsiau ac yn eu perthnasedd uniongyrchol i waith deddfwrfa fodern. Mae'n rhaid i ddemocratiaeth bellach brofi ei hun nid yn unig yn foesol ond yn weithredol. Mae'n rhaid iddi ddangos ei bod yn dal i allu gwrando, dal i lywodraethu a dal i addasu, a’i bod yn haeddu cael cydsyniad mewn byd ble mae’r sylw yn ddarniog a’r algorithm yn gyflym.

Mae’n wers fyd-eang. Mae hefyd yn un sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru ac i waith y Senedd yn y dyfodol.